Cymunedau Bregus

Pa fath o grwpiau sy'n gweithio gyda Siopau Gwyddoniaeth Cymru?

Mae Siopau Gwyddoniaeth Cymru yn cydweithio, o fewn fframwaith foesegol, gyda grwpiau sy'n hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol, amgylcheddol a dirnadol.

Byddwn yn debyg o gydweithio gyda:

- Grwpiau cymunedol ac elusennau
- Grwpiau sydd heb amcanion masnachol
- Grwpiau na fedr fforddio hurio ymgynghorwyr nac arbenigedd
- Grwpiau sydd mewn sefyllfa i ddefnyddio ymchwil neu wybodaeth i hybu eu datblygiad

Grwpiau megis

- Ymddiriedolaethau Adfywio
- Awdurdodau lleol a rhanbarthol
- Ysgolion
- Grwpiau Cleifion a Mentrau Iechyd
- Addysgwyr a Hyfforddwyr
- Cyrff Menter Gymdeithasol

SIOPAU GWYDDONIAETH CYMRU
SCIENCE • SHOPS • WALES
scishopw@glam.ac.uk • 0845 • 841 • 3545
http://www.scienceshopswales.org.uk

Ynglŷn â Rhwydwaith Siopau Gwyddoniaeth Cymru:

Sefydlwyd Siopau Gwyddoniaeth Cymru (SGC) ym mis Medi 2006 gydag ariannu gan Gronfa Datblygu Strategol Cyngor Addysg Uwch Cymru, o dan fenter ehangu mynediad ar y cyd â Phrifysgol Cymru, Casnewydd. Pwrpas SGC yw datblygu, yn y pen draw, canolfan wasanaeth i'r gymuned a'r Brifysgol ar gyfer cyd-ymwneud a chydgysylltu, gyda phwyslais arbennig ar wyddoniaeth a thechnoleg.

Mae Rhwydwaith Siopau Gwyddoniaeth Cymru yn aelod o Rwydwaith Ryngwladol Gwybodaeth Fyw; rhwydwaith ryngwladol o Siopau Gwyddoniaeth, a'r Gynghrair Ryngwladol dros Ymchwil sy'n Ymwneud â'r Gymuned (GACER).

Mwy o wybodaeth?

Am fanylion ar gwasanaethau Myfyrwyr cysylltwch â Kim Fitzgerald, Siopau Gwyddoniaeth Cyrmu, ar 0845 841 3545, neu e-bostiwch kafitzge@glam.ac.uk

Cyfeiriad ein gwefan yw www.scienceshopswales.org.uk

University of Wales, Newport

Prifysgol Cymru, Casnewydd

SIOPAU GWYDDONIAETH CYMRU

Gwasanaeth Prosiectau Myfyrwyr

SIOPAU GWYDDONIAETH CYMRU
SCIENCE • SHOPS • WALES
scishopw@glam.ac.uk • 0845 • 841 • 3545
http://www.scienceshopswales.org.uk

Ydych chi'n fyfyriwr israddedig blwyddyn olaf neu radd Meistr neu PhD yn chwilio am brosiect ymchwil naill ai ar gyfer eich traethawd neu er mwyn ennill profiad a sgiliau ymarferol?

A hoffech ddatblygu sgiliau newydd ac ennill profiad drwy gynnal ymchwil a helpu rhedeg prosiect ar gyfer grŵp cymunedol lleol?

Yna gallai Siopau Gwyddoniaeth Cymru eich helpu!

Ymhlith y manteision i fyfyrwyr sydd yn ymwneud â Phrosiectau SGC mae:

- Profiad ymarferol a fedrai wella rhagolygon cyflogaeth yn y dyfodol

- Datblygu a chadarnhau sgiliau a ddysgwyd wrth wneud gwaith cwrs

- Mynediad i brosiectau parod, wedi eu diffinio yn fanwl glir

- I fyfyrwyr tramor ac o rannau eraill o'r wlad, cyfleoedd helaethach i brofi diwylliannau ac arferion lleol

- Y posibilrwydd o dderbyn cymorth pellach ac ariannu i helpu gyda chostau prosiect megis llungopïo a theithio (yn ddibynnol ar sêl bendith SGC)

- Gwneud gwaith sydd yn ddefnyddiol i grŵp cymunedol

- Gwneud gwaith am ddim i grwpiau cymunedol, na fyddent yn gallu ei fforddio fel arall

- Dysgu a chywreinio sgiliau trosglwyddadwy allweddol megis gweithio mewn tîm, rheoli prosiect ac amser, a sgiliau trafod

SIOPAU GWYDDONIAETH CYMRU
SCIENCE • SHOPS • WALES
scishopw@glam.ac.uk • 0845 • 841 • 3545
http://www.scienceshopswales.org.uk

Gwasanaethu'r Cymuned Cymunedau Bregus

Pam gwneud prosiect?

Mae Prosiect Siopau Gwyddoniaeth Cymru yn cynnig ymchwil sydd yn berthnasol yn lleol i fyfyrwyr ac ymchwilwyr, a'r cyfle i ennill profiad
yn y byd 'go iawn'. Mae ein cronfa ddata yn cynnwys prosiectau yn y celfyddydau, astudiaethau busnes, addysg, datblygiad cynaliadwy, peirianneg a'r gwyddorau cymdeithasol.

Mae gan Siopau Gwyddoniaeth Cymru gronfa ddata eang o brosiectau i fyfyrwyr:

- Archwiliadau bioamrywiaeth

- Ymchwil farchnata i fusnesau cymunedol

- Astudiaeth ymarferoldeb ar gyfer gosod tyrbin gwynt ar dir ysgol

- Astudiaeth ymarferoldeb ar gyfer gosod system generadu ynni microhydro yn swyddfeydd grŵp cymunedol lleol

- Asesu'r posibilrwydd o greu cerflun pridd sy'n ddigon cadarn i'w ddefnyddio fel maes BMX

- Datblygu gwefan gyfeillgar i ddefnyddwyr i hyrwyddo prosiect fenter gymdeithasol ar dreftadaeth leol

University of Wales, Newport | Prifysgol Cymru, Casnewydd

Beth yw Siopau Gwyddoniaeth?

Mae mudiad y Siopau Gwyddoniaeth yn bod ers y 1970au, ac yn rhan o Rwydwaith Ryngwladol Gwybodaeth Fyw a'r Gynghrair Ryngwladol dros Ymchwil sy'n Ymwneud â'r Gymuned. (Am ragor o wybodaeth ewch at www.scienceshops.org).

Gwybodaeth bellach:

Mae siopau gwyddoniaeth wedi eu seilio mewn prifysgol yn hyrwyddo cyd-weithrediad cryfach rhwng prifysgolion â'u cymunedau lleol drwy ddarparu cyfleoedd am ymchwil yn y gymuned i fyfyrwyr. Gelwir y fath weithgareddau yn aml yn 'ddysgu drwy wasanaethu' neu 'wirfoddoli wedi ei achredu'. Er gwaethaf yr enw, mae siopau gwyddoniaeth yn cynnig cyfleoedd am ymchwil ym mhob maes, o'r gwyddorau cymdeithasol, astudiaethau busnes a thechnoleg, i astudiaethau amgylcheddol. Dengys ymchwil a gynhaliwyd o fewn mudiad y Siopau Gwyddoniaeth Rhyngwladol fod Siopau Gwyddoniaeth yn cyfoethogi'r cwricwlwm a phrofiad myfyrwyr*

* Gweler yr adroddiadau SCIPAS noddedig gan y GU, i'w cael drwy wefan Living Knowledge Network

SIOPAU GWYDDONIAETH CYMRU
SCIENCE • SHOPS • WALES
scishopw@glam.ac.uk • 0845 • 841 • 3545
http://www.scienceshopswales.org.uk